# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 4 Tachwedd 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sylwadau y mae ei adran wedi'u derbyn oddi wrth Gyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â'r gwelliannau i'r A48, sef ffordd osgoi'r Bont-faen, yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ29432) **R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i atal dosbarthiadau anghenion arbennig mewn ysgolion rhag cau. (WAQ29430)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau a roddir gan y Cynulliad i'r Awdurdodau Addysg Lleol ynghylch darparu dosbarthiadau anghenion arbennig. (WAQ29431)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa ganllawiau a roddir gan y Gweinidog i'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr holl arian a ddyrannwyd o fewn eu cyllidebau ar gyfer Cytundebau Llwyth Gwaith Athrawon yn cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw. (WAQ29443)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa gymhareb o Athrawon Cymwysedig i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu sy'n cael ei argymell i'r Awdurdodau Addysg Lleol o dan Gytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. (WAQ29444)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa ymchwil y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gomisiynu yn y tair blynedd diwethaf ynghylch y cyfraddau cofrestru etholiadol; a pha ymchwil y mae'n bwriadu ei gomisiynu yn y dyfodol ar y mater hwn. (WAQ29433)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Faint y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi'i wario ar gofrestru etholiadol yn y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael (a) fel cyfanswm a (b) am bob aelod o'r etholaeth. (WAQ29434)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Beth yw asesiad y Gweinidog o'r rhesymau am y gostyngiad sylweddol yn y cyfraddau cofrestru etholiadol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. (WAQ29435)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog restru awdurdodau Cymru sydd, ar unrhyw adeg yn ystod y tair blynedd diwethaf, wedi cymryd camau yn erbyn unigolion sydd wedi methu â chofrestru i bleidleisio. (WAQ29436)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog restru'r adrannau cofrestru hynny yn awdurdodau lleol Cymru sydd (a) yn mabwysiadu a (b) heb fod yn mabwysiadu'r arferion gorau mewn trefniadau cofrestru etholiadol fel a ddisgrifir yn adroddiad 2002 y Comisiwn Etholiadol, "Making an Impact". (WAQ29437)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod (a) beth yw cyfanswm yr oedolion a (b) faint o oedolion sydd wedi cofrestru i bleidleisio ym mhob etholaeth Gynulliad/Seneddol yng Nghymru eleni, gan eu rhestru yn ôl y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigwr, gan ddechrau gyda’r uchaf. (WAQ29438)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau trawsffiniol a ddefnyddir i ddosbarthu dogfennau ymgynghori o Ysbyty Countess of Chester i drigolion Glannau Dyfrdwy. (WAQ29410)